



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau
Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: Abergelli.Power@pins.gsi.gov.uk

At Bartïon â Buddiant, Partïon Statudol
a Phersonau Eraill a wahoddyd i'r
Cyfarfod Rhagarweiniol

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010069

Dyddiad: 17 Hydref 2018

Annwyl Syr / Fadam

Deddf Cynllunio 2008 – Adran 89 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheol 8 ac ati

Cais gan Abergelli Power Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Pŵer Abergelli

Amserlen yr Archwiliad a'r Weithdrefn

Mae'r llythyr hwn yn rhoi Amserlen yr Archwiliad, manylion cyhoeddi Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr Awdurdod Archwilio a gwybodaeth bwysig arall ynghylch yr Archwiliad.

Gellir defnyddio'r dolenni canlynol i ddod o hyd i'r holl ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn, gan gynnwys cofnod o'r Cyfarfod Rhagarweiniol a recordiad sain a wnaed yn y cyfarfod hwnnw:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/?ipcsection=overview> (safle Saesneg)

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/abergelli-power/> (safle Cymraeg)

Amserlen yr Archwiliad

Rwyf i wedi gwneud rhai Penderfyniadau Gweithdrefnol ynghylch y ffordd y bydd y cais yn cael ei archwilio. Atodir Amserlen derfynol yr Archwiliad yn **Atodiad A**.

Mae Amserlen yr Archwiliad yn **Atodiad A** yn disodli'r amserlen ddrafft a oedd wedi'i chynnwys yn y llythyr Rheol 6 dyddiedig 12 Medi 2018¹. Wrth gwblhau Amserlen yr Archwiliad, rwyf i wedi ceisio bodloni ceisiadau ac awgrymiadau a wnaed yn y Cyfarfod Rhagarweiniol ac mewn sylwadau a gyflwynwyd cyn y cyfarfod hwnnw.

Dyma'r prif newidiadau i'r amserlen ddrafft a gyhoeddwyd yn y llythyr Rheol 6:

- Ymestyn Terfyn Amser 1 i ddydd Gwener 9 Tachwedd;
- Ymestyn Terfyn Amser 2 i ddydd Gwener 30 Tachwedd;
- Mae Terfynau Amser 4 a 5 wedi cyfuno bellach. Mae'r dogfennau yr oedd angen eu cyflwyno erbyn Terfyn Amser 4 wedi cael eu hychwanegu at y rhai yr oedd angen eu cyflwyno erbyn Terfyn Amser 5. Felly, nid yw terfyn amser dydd Gwener 25 Ionawr yn berthnasol mwyach ac mae angen i'r ymatebion gael eu cyflwyno erbyn dydd Gwener 1 Chwefror. O ganlyniad i hyn, mae Terfyn Amser blaenorol 5 yn dod yn Derfyn Amser 4, ac mae 6 Therfyn Amser bellach yn lle'r 7 yn yr amserlen ddrafft.

Noder bod Amserlen yr Archwiliad yn cynnwys nifer o derfynau amser i'r Arolygiaeth Gynllunio dderbyn gwybodaeth. Mae'r holl derfynau amser yn cyfeirio at 23:59 ar y dyddiad a nodir. Gwnewch yn siŵr y bydd cyflwyniadau'n cyrraedd erbyn y terfyn amser. Os na fyddwch yn cyflwyno'ch cyflwyniadau erbyn y dyddiadau a nodir yn yr amserlen, mae'n bosibl y byddaf yn eu hanwybyddu.

Gofynnaf i Bartion â Buddiant, lle bo hynny'n ymarferol, anfon copïau electronig o'u cyflwyniad fel atodiad e-bost at AbergelliPower@pins.gsi.gov.uk ar neu cyn y terfyn amser perthnasol. Dylid labelu atodiadau electronig yn glir â theitl y pwnc ac ni ddylent fod yn fwy na 12MB ar gyfer pob neges e-bost. Nid yw darparu dolenni i wefannau lle gellir gweld eich cyflwyniadau yn dderbyniol. Rhaid gwneud pob cyflwyniad mewn fformat y gellir ei weld yn llawn ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Dylai unrhyw gyflwyniadau sy'n fwy na 1,500 o eiriau gynnwys crynodeb; ni ddylai'r crynodeb hwn fod yn fwy na 10% o'r testun gwreiddiol.

Os byddaf o'r farn y bydd angen amrywio Amserlen yr Archwiliad yn ystod yr Archwiliad, anfonir hysbysiad at Bartion â Buddiant a Phersonau Eraill² a wahoddwyd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn unig. Cyhoeddir y newidiadau ar dudalen prosiect Abergelli ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Cynrychiolaethau Ysgrifenedig

Nawr, gwahoddir pob Parti â Buddiant i gyflwyno Cynrychiolaethau Ysgrifenedig ac unrhyw sylwadau ar y Cynrychiolaethau Perthnasol a gyflwynwyd eisoes. Dylid cyflwyno'r rhain erbyn **Terfyn Amser 1** yn Amserlen yr Archwiliad (**Atodiad A**).

Mae Cynrychiolaethau Ysgrifenedig yn gallu ymdrin ag unrhyw fater perthnasol ac ni chânt eu cyfyngu i'r materion a osodir allan yn fy Asesiad Cychwynol o Brif Faterion a

¹ Eich gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

² Mae Personau Eraill yn bersonau y dewisais eu gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol, yn ogystal â'r personau rhagnodedig a restrir yn adran 88(3) Deddf Cynllunio 2008 – gweler 'Eich statws yn yr Archwiliad a hysbysiadau i ddod' isod

drafodwyd yn y Cyfarfod Rhagarweiniol ac a gynhwysir yn fy llythyr Rheol 6³. Ni chânt eu cyfyngu ychwaith i'r hyn sydd yn fy Nghwestiynau Ysgrifenedig (gweler y pennawd nesaf, isod).

Rhaid i unrhyw berson, ac eithrio'r Ymgeisydd, sy'n cyflwyno Cynrychiolaeth Ysgrifenedig, nodi'r rhannau hynny o'r cais y maent yn cytuno â hwy a'r rhannau hynny nad ydynt yn cytuno â hwy, gan esbonio'r rhesymau pam⁴. Hefyd, dylai Partion â Buddiant ddarparu gyda'u Cynrychiolaethau Ysgrifenedig "y data, y fethodoleg a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gefnogi eu cyflwyniadau"⁵.

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn am gyflwyniadau ysgrifenedig pellach ar adegau gwahanol yn ystod yr Archwiliad.

Dylai unrhyw Gynrychiolaethau Ysgrifenedig, ac unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig pellach y gofynnwyd amdanynt gan yr Awdurdod Archwilio ystod yr Archwiliad sy'n fwy na 1,500 o eiriau gynnwys crynodeb na ddylai fod yn fwy na 10% o'r testun gwreiddiol. Dylai'r crynodeb nodi ffeithiau allweddol y cyflwyniad ysgrifenedig a rhaid iddo fod yn gynrychioliadol o'r cyflwyniad a wnaed.

Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr Awdurdod Archwilio

Rwyf wedi crynhoi'r Cwestiynau Ysgrifenedig ynghylch y cais a'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd hyd yn hyn. Cyhoeddir y cwestiynau hyn ar dudalennau Prosiect Abergelli ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol a gellir cael mynediad iddynt drwy'r ddolen ganlynol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010069-000751>

Rhaid i atebion i'm Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf gael eu darparu erbyn **Terfyn Amser 1** yn Amserlen yr Archwiliad (**Atodiad A**).

Os ydych angen copi caled o'm Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf, cysylltwch â'r Tîm Achos, a fydd yn anfon copi atoch.

Gwrandawiadau

Mae Amserlen yr Archwiliad yn **Atodiad A** yn cynnwys cyfnodau o amser a neilltuir ar gyfer unrhyw wrandawiadau sydd i'w cynnal, a byddaf yn hysbysu pob Parti â Buddiant am unrhyw wrandawiadau a drefnir fel rhan o'r Archwiliad o leiaf 21 diwrnod cyn iddynt ddigwydd. Bydd yr hysbysiad hwnnw'n cynnwys terfyn amser ychwanegol fel y gall Partion â Buddiant roi gwybod i'r Arolygiaeth Gynllunio os ydynt yn dymuno mynychu'r gwrandawriad(au) a hysbysir.

³ [https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010069/EN010069-000723-Final%20180912_Abergelli_Rule_6_Letter_\(E\).pdf](https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010069/EN010069-000723-Final%20180912_Abergelli_Rule_6_Letter_(E).pdf)

⁴ Yn ofynnol o dan Reol 10(4) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010

⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/planning-act-2008-examination-of-applications-for-development-consent>

Mae **Atodiad B** yn rhoi manylion am yr hyn y dylai Partïon â Buddiant ei gynnwys mewn cais i gael eu clywed mewn gwrandawriad, a'r weithdrefn a ddilynir mewn gwrandawriadau.

Archwiliad Safle â Chwmni

Yn ogystal, ceir gwybodaeth am yr Archwiliad Safle â Chwmni, y bwriedir ei gynnal ddydd Gwener 14 Rhagfyr 2018, yn **Atodiad B**.

Argaeledd dogfennau cais a chynrychiolaethau a gyflwynwyd i'r Archwiliad

Gellir defnyddio'r dolenni canlynol i ddod o hyd i'r holl ddogfennaeth a'r recordiadau sain sy'n gysylltiedig ag archwiliad y cais hwn:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/?ipcsection=overview> (safle Saesneg)

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/abergelli-power/> (safle Cymraeg)

Mae **Atodiad C** yn rhoi manylion lleoliadau yng nghyffiniau'r Datblygiad a Gynigir lle gellir gweld holl ddogfennau'r Archwiliad yn electronig, am ddim.

Yn ogystal, ceir cyngor ar gyfer Partïon â Buddiant ynghylch sut i gael mynediad i Lyfrgell yr Archwiliad a sut i chwilio drwyddi yn **Atodiad C**.

Eich statws yn yr Archwiliad a hysbysiadau i ddod

Anfonwyd y llythyr hwn atoch gan eich bod chi (neu'r corff a gynrychiolwch) yn dod o fewn un o'r categorïau yn a88(3) Deddf Cynllunio 2008.

Os ydych wedi gwneud Cynrychiolaeth Berthnasol, neu os oes gennych fuddiant cyfreithiol yn y tir y mae'r cais yn effeithio arno, neu os ydych yn Awdurdod Lleol perthnasol (cyfeirnodau sy'n dechrau gydag 'ABER-000', 'ABER-S57' neu '2001'), mae gennych statws ffurfiol fel Parti â Buddiant yn yr Archwiliad.

Bydd Partïon â Buddiant yn derbyn hysbysiadau gan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghylch yr Archwiliad drwy gydol y broses a gallant wneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar ynghylch y cais.

Os ydych yn Barti Statudol (h.y. corff a nodir yn y rheoliadau perthnasol sy'n ategu Deddf Cynllunio 2008) ond heb wneud Cynrychiolaeth Berthnasol (cyfeirnod sy'n dechrau gydag 'ABER-000', 'ABER-S57' neu '2001') ni fyddwch yn Barti â Buddiant yn awtomatig. Fodd bynnag, gallwch roi gwybod i'r Arolygiaeth Gynllunio eich bod yn dymuno cael eich trin fel Parti â Buddiant ar unrhyw adeg yn ystod yr Archwiliad.

Ni fydd Partïon Statudol nad ydynt wedi gwneud Cynrychiolaeth Berthnasol ac nad ydynt yn rhoi gwybod i ni am eu dymuniad i ddod yn Barti â Buddiant yn derbyn unrhyw ohebiaeth bellach mewn perthynas ag archwilio'r cais hwn.

Os nad ydych yn Barti â Buddiant neu'n Barti Statudol (h.y. corff a nodir yn y rheoliadau perthnasol sy'n ategu Deddf Cynllunio 2008), rydych wedi derbyn y llythyr hwn oherwydd cawsoch eich gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol fel Person Arall⁶ oherwydd roedd yn ymddangos i mi y gallai'r Archwiliad gael ei lywio gan eich cyfranogiad. Mae gan Bersonau Eraill rif cyfeirnod sy'n dechrau gydag 'ABER-OP'. Os ydych yn Berson Arall, nid ydych yn Barti â Buddiant. Ni fyddaf yn ysgrifennu atoch eto ac eithrio i'ch hysbysu bod Amserlen yr Archwiliad wedi newid⁷, neu os oes gennym gwestiynau penodol i chi yn ystod yr Archwiliad.

Os ydych yn ansicr ynghylch eich statws yn yr Archwiliad, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn. Mae gwybodaeth am statws ffurfiol Partïon â Buddiant a sut y gallwch gymryd rhan yn y broses wedi'i gosod allan yng nghyfres Nodiadau Cyngor 8 yr Arolygiaeth Gynllunio, sydd ar gael yma:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/> (safle Saesneg)

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/> (safle Cymraeg)

Pwysig: Os bydd angen i ragor o wybodaeth neu sylwadau ysgrifenedig (cais Rheol⁸) gael eu cyflwyno i mi erbyn terfyn amser sydd wedi'i osod yn Amserlen yr Archwiliad yn **Atodiad A**, anfonir y cais at y personau hynny yr ystyriaf eu bod yn berthnasol i'r cais yn unig. Fodd bynnag, fe'i cyhoeddir ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol fel y bydd pob Parti â Buddiant yn gallu ymateb os ydynt yn teimlo ei fod yn berthnasol i'w buddiannau. Os wyf yn ystyried hynny'n angenrheidiol, ychwanegir terfyn amser pellach at yr amserlen i roi cyfle i'r holl Bartïon â Buddiant gyflwyno sylwadau ar unrhyw ymatebion a dderbynnir.

Dyfarnu costau

Dylech fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y caiff costau eu dyfarnu yn erbyn partïon sy'n ymddwyn yn afresymol.

I hwyluso dealltwriaeth o'r hyn y mae 'ymddygiad afresymol' yn ei olygu yng nghydestun Archwiliad o dan Ddeddf Cynllunio 2008, mae'n bosibl y bydd yn ddefnyddiol i chi ddarllen arweiniad y llywodraeth 'Dyfarnu costau: archwilio ceisiadau am orchmynion caniatâd datblygu' (Gorffennaf 2013)⁹. Mae er budd pawb i wybodaeth gael ei chyflwyno mor fuan â phosibl yn y broses archwilio, felly fe'ch anogir i wneud hynny.

Rheoli gwybodaeth

⁶ Gweler troednodyn 2 ar dudalen 2 y llythyr hwn

⁷ Rheol 8(3) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010

⁸ Rheol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010

⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/awards-of-costs-examinations-of-applications-for-development-consent-orders>

Mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio ymrwymiad i dryloywder. Felly, cyhoeddir yr holl wybodaeth a gyflwynir ar gyfer y prosiect hwn (os caiff ei derbyn gan yr Awdurdod Archwilio) a chofnod o unrhyw gyngor a roddwyd, yn:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/?ipcsection=overview> (safle Saesneg)

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/abergelli-power/> (safle Cymraeg)

Yn ogystal, gellir gweld holl ddogfennau'r Archwiliad yn electronig yn y lleoliadau a restrir yn **Atodiad C**.

Codwyd nifer o bwyntiau gweithredu yng Ngwrandawriad Materion Penodol 1 (ISH1) ynglŷn â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO). Rhestrir y rhain yn **Atodiad Ch** ac mae'n rhaid eu darparu erbyn **Terfyn Amser 1**.

Noder, er budd hwyluso archwiliad effeithiol a theg, ystyriwn fod cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth bersonol yn angenrheidiol. I ddarganfod sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r holl bartion wrth archwilio'r cais hwn.

Yr eiddoch yn gywir

Martin Broderick

Arolygydd Archwilio

Atodiadau

- A** Amserlen yr Archwiliad
- B** Ceisiadau i ymddangos a'r weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawriadau
- C** Argaeledd cynrychiolaethau a dogfennau'r cais
- Ch** Pwyntiau gweithredu yn dilyn ISH1 ynglŷn â'r dDCO

Atodiad A

Amserlen ar gyfer archwilio'r cais

Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddyletswydd i gwblhau archwilio'r cais erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.

Byddaf yn archwilio'r cais trwy ystyried cyflwyniadau ysgrifenedig yn bennaf. Byddaf hefyd yn ystyried unrhyw gynrychiolaethau llafar a wneir mewn Gwrandawiadau.

Eitem	Materion	Dyddiadau Dyledus
1	Cyfarfod Rhagarweiniol	Dydd Mercher 10 Hydref 2018 am 10:00
2	Gwrandawriad Materion Penodol (ISH) ISH1 ynglŷn â'r: <ul style="list-style-type: none">Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)	Dydd Mercher 10 Hydref 2018 am 14:00
4	Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi: <ul style="list-style-type: none">Amserlen yr Archwiliad (gan gynnwys dyddiadau unrhyw wrandawiadau);Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr Awdurdod Archwilio.	Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol
5	Terfyn Amser 1 Terfyn amser i'r Awdurdod Archwilio dderbyn: <ul style="list-style-type: none">Sylwadau ar Gynrychiolaethau Perthnasol;Crynodebau o'r holl Gynrychiolaethau Perthnasol sydd dros 1,500 o eiriau;Cynrychiolaethau Ysgrifenedig;Crynodebau o'r holl Gynrychiolaethau Ysgrifenedig sydd dros 1,500 o eiriau;Adroddiadau ar yr Effaith Leol gan unrhyw Awdurdodau Lleol;Datganiadau Tir Cyffredin y gofynnwyd amdanynt gan yr Awdurdod Archwilio;Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr Awdurdod Archwilio;Sylwadau ar ddogfennau'r cais a ddiweddarwyd;	Dydd Gwener 9 Tachwedd 2018

	<ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani; • Cyflwyniadau ôl-wrandawriad, gan gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig o achosion llafar; • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn unrhyw Wrandawriad Materion Penodol dilynol; • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawriad Caffael Gorfodol; • Hysbysiad o ddymuniad i wneud cynrychiolaethau llafar mewn Gwrandawriad Materion Penodol ar y dDCO (os bydd angen); • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawriad Llawr Agored; • Darparu lleoliadau awgrymedig a chyfiawnhad dros archwiliadau safle i'w hystyried gan yr Awdurdod Archwilio; • Hysbysiad o ddymuniad i fynychu Archwiliad Safle â Chwmni. 	
6	<p>Terfyn Amser 2</p> <p>Terfyn amser i'r Awdurdod Archwilio dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar Gynrychiolaethau Ysgrifenedig ac ymatebion i sylwadau ar Gynrychiolaethau Perthnasol; • Sylwadau ar Adroddiadau ar yr Effaith Leol; • Sylwadau ar ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio; • dDCO diwygiedig gan yr Ymgeisydd; • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Terfyn Amser 1; • Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani erbyn y terfyn amser hwn. 	Dydd Gwener 30 Tachwedd 2018
7	<p>Gwrandawriad Caffael Gorfodol</p> <p>Dyddiad a gedwir i gynnal Gwrandawriad Caffael Gorfodol 1.</p>	Dydd Mercher 12 Rhagfyr 2018 am 10.00

8	Gwrandawriad Llawr Agored Dyddiad a gedwir i gynnal Gwrandawriad Caffael Gorfodol	Dydd Mercher 12 Rhagfyr 2018 am 19.00
9	Gwrandawriadau Materion Penodol (ISH) Dyddiad a gedwir ar gyfer unrhyw ISH2/ISH3.	Dydd Iau 13 Rhagfyr 2018 am 10.00
10	Archwiliad Safle â Chwmni Dyddiad a gedwir i gynnal Archwiliad Safle â Chwmni (os bydd angen)	Dydd Gwener 14 Rhagfyr 2018 am 09.00
11	Terfyn Amser 3 Terfyn Amser i'r Awdurdod Archwilio dderbyn: <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyniadau ôl-wrandawriad, gan gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig o achosion llafar; • Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani; • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Terfyn Amser 2. 	Dydd Gwener 21 Rhagfyr 2018
12	Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi: <ul style="list-style-type: none"> • Cwestiynau Ysgrifenedig Pellach yr Awdurdod Archwilio (os bydd angen). 	Dydd Gwener 11 Ionawr 2019
14	Terfyn Amser 4 Terfyn Amser i'r Awdurdod Archwilio dderbyn: <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani erbyn y terfyn amser hwn; • Unrhyw Ddatganiadau Tir Cyffredin diwygiedig/wedi'u diweddarau; • dDCO diwygiedig yr Ymgeisydd; • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Terfyn Amser 3; 	Dydd Gwener 1 Chwefror 2019

	<ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Pellach yr Awdurdod Archwilio (os bydd angen); • Y DCO a ffefrir gan yr Ymgeisydd yn yr adroddiad dilysu templed Offeryn Statudol (OS); • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Terfyn Amser 3. 	
15	<p>Gwrandawiadau Materion Penodol (os oes angen)</p> <p>Dyddiad a gedwir ar gyfer unrhyw ISH4.</p>	<p>Dydd Mawrth 26 a dydd Mercher 27 Chwefror 2019</p>
16	<p>Terfyn Amser 5</p> <p>Terfyn amser i'r Awdurdod Archwilio dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyniadau ôl-wrandawriad, gan gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig o achos llafar; • Unrhyw Ddatganiadau Tir Cyffredin diwygiedig/wedi'u diweddarau; • Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani erbyn y terfyn amser hwn; • Sylwadau ar dDCO diwygiedig yr Ymgeisydd; • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Terfyn Amser 4. 	<p>Dydd Mercher 6 Mawrth 2019</p>
17	<p>Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dDCO yr Awdurdod Archwilio (os bydd angen); • Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) (os bydd angen). 	<p>Dydd Llun 11 Mawrth 2019</p>
18	<p>Terfyn Amser 6</p> <p>Terfyn amser i'r Awdurdod Archwilio dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar dDCO yr Awdurdod Archwilio (os bydd angen); • Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani; • Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani erbyn y terfyn amser hwn; 	<p>Dydd Mercher 20 Mawrth 2019</p>

	<ul style="list-style-type: none"> Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Terfyn Amser 5; Y DCO terfynol i'w gyflwyno gan yr Ymgeisydd yn y templed OS gydag adroddiad dilysu'r templed OS. 	
19	Cedwir ar gyfer cyhoeddi unrhyw gais am wybodaeth bellach o dan Reol 17.	Dydd Llun 27 Mawrth 2018
20	Terfyn amser ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> Unrhyw ymatebion i geisiadau o dan Reol; Unrhyw ymatebion i'r RIES (os oes angen). 	Dydd Mercher 3 Ebrill 2019
21	Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddyletswydd i orffen archwilio'r cais erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ddod i ben.	Dydd Iau 11 Ebrill 2019

Atodiad B

Ceisiadau i ymddangos a'r weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiadau

Mae Amserlen yr Archwiliad yn cadw 2 gyfnod amser ar gyfer gwrandawiadau sydd i'w cynnal:

1. Dydd Mercher 12 Rhagfyr 2018 – dydd Iau 13 Rhagfyr 2018;
2. Dydd Mawrth 26 a dydd Mercher 27 Chwefror 2019.

Ceisiadau i ymddangos mewn gwrandawiadau ac archwiliad safle â chwmni

Mae'n ofynnol i Bartion â Buddiant roi gwybod i'r Awdurdod Archwilio yn ysgrifenedig os ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn Gwrandawriad Llawr Agored, Gwrandawriad Caffael Gorfodol neu archwiliad safle â chwmni. Rwyf yn atgoffa Partion â Buddiant am y Penderfyniad Gweithdrefnol a gyhoeddwyd gyda'r llythyr Rheol 6 yn gofyn i Bartion â Buddiant roi gwybod am hyn **ar neu cyn 09 Tachwedd 2018 (Terfyn Amser 1, Atodiad A)**.

Os na dderbynnir unrhyw geisiadau ysgrifenedig i gymryd rhan mewn Gwrandawriad Llawr Agored neu Wrandawriad Caffael Gorfodol erbyn y terfyn amser uchod, nid yw'n ofynnol i mi gynnal gwrandawriad o'r fath; er mae'n bosibl y byddaf yn dewis gwneud hynny er gwaethaf hyn.

Hefyd, mae'n bosibl y byddaf yn dewis cynnal Gwrandawriadau Materion Penodol (ISH) ynghylch pynciau y mae angen, yn fy marn i, eu harchwilio ar lafar.

Rhoddir hysbysiad ysgrifenedig i bob Parti â Buddiant o amser, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawriad a gadarnheir, gan roi o leiaf 21 diwrnod o rybudd. Bydd yr amserlen ar gyfer yr archwiliad safle â chwmni yn cael ei chyhoeddi o leiaf 21 diwrnod o flaen llaw hefyd.

Os yw Parti â Buddiant yn dymuno mynychu Gwrandawriad Llawr Agored neu Wrandawriad Materion Penodol, dylent nodi yn eu Cynrychiolaeth Berthnasol neu Gynrychiolaeth Ysgrifenedig pa bynciau y maent yn dymuno eu trafod yn y gwrandawriad. Yn yr un modd, dylai unrhyw Unigolyn yr Effeithir Arno sy'n dymuno mynychu Gwrandawriad Caffael Gorfodol nodi'n glir y lleiniau o dir y mae'n dymuno eu trafod.

Dylai hysbysiaidau gan Bartion â Buddiant mewn perthynas â'r uchod gael eu hanfon ar wahân i unrhyw gyflwyniad ysgrifenedig arall, gyda theitl priodol i'n galluogi i nodi'n gyflym pa ddigwyddiad y mae'r hysbysiad yn cyfeirio ato.

Y weithdrefn mewn gwrandawiadau

Mae'r weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawriadau wedi'i gosod allan yn Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010¹⁰. Rhaid i unrhyw gynrychiolaethau llafar fod yn seiliedig naill ai ar y Gynrychiolaeth Berthnasol neu'r Gynrychiolaeth

¹⁰ Rheol 14

Ysgrifenedig a wnaed gan y sawl sy'n gwneud y cynrychiolaethau llafar, neu y gwneir y cynrychiolaethau llafar ar eu rhan.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gyfrifol am holi ar lafar y sawl sy'n rhoi tystiolaeth ac mae'r broses yn cynnig cyfle cyfyngedig iawn i ganiatáu croesholi rhwng partïon¹¹. Cynhelir fy archwiliad yn bennaf drwy gyfnewid cyflwyniadau ysgrifenedig, a byddwn yn penderfynu a oes angen gwrandawriad ar fater neu bwnc penodol.

Agendâu gwrandawiadau

Fy nod yw cyhoeddi agenda ddrafft ar gyfer pob gwrandawriad ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad. Mae'n bosibl y bydd yr union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawriad yn newid yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Archwilio.

Y Gymraeg

Mae croeso i chi gyfrannu yn Gymraeg yn ystod y gwrandawiadau neu'r archwiliad safle os dymunwch; bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael i alluogi pobl i wneud hynny. Cewch hefyd wneud cynrychiolaethau ysgrifenedig ac ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yn Gymraeg ar unrhyw adeg yn ystod yr Archwiliad.

¹¹ Rheol 14(5)

Atodiad C

Argaeledd dogfennau'r Archwiliad

Mae holl ddogfennau'r cais, gan gynnwys Cynrychiolaethau Perthnasol a dogfennau'r cais, ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/> - gwefan Saesneg;
<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/abergelli-power/> - gwefan Gymraeg.

Gallwch weld dogfennau'n electronig yn y lleoliadau canlynol. Sylwch efallai y bydd angen i chi ddod â phrawf adnabod gyda chi i ddefnyddio'r cyfrifiadur yn y lleoliadau hyn.

Lleoliadau Adneuo Electronig:

Awdurdod Lleol	Llyfrgell/Cyfeiriad	Oriau Agor
Cyngor Abertawe	Llyfrgell Clydach 54-56 Stryd Fawr, Clydach, Abertawe SA6 5LN	Dydd Llun – 9.30-17.30 Dydd Mawrth – 9.30-17.30 Dydd Mercher – 9.30-17.30 Dydd Iau – 9.30-17.30 Dydd Gwener – 9.30-18.30 Dydd Sadwrn – 9.30-16.30 Dydd Sul – Ar gau
Cyngor Abertawe	Llyfrgell Treforys Heol Treharne, Treforys, Abertawe, SA6 7AA.	Dydd Llun – 9.00-18.00 Dydd Mawrth – 9.00-18.00 Dydd Mercher – 9.00-18.00 Dydd Iau – 9.00-18.00 Dydd Gwener – 9.00-18.00 Dydd Sadwrn – 9.00-17.00 Dydd Sul – Ar gau
Cyngor Abertawe	Llyfrgell Ganolog Abertawe Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN.	Dydd Llun – Closed Dydd Mawrth – 8.30-20.00 Dydd Mercher – 8.30-20.00 Dydd Iau – 8.30-20.00 Dydd Gwener – 8.30-20.00 Dydd Sadwrn – 10.00-16.00 Dydd Sul – 10.00-16.00
Costau Argraffu	Du a Gwyn	Lliw
A4	20c	70c
A3		
Dolenni i holl leoliadau llyfrgelloedd y cyngor:		
https://www.abertawe.gov.uk/llyfrgellclydach		
https://www.abertawe.gov.uk/llyfrgelltreforys		

<https://www.abertawe.gov.uk/llyfrgellganolog>

Atodiad Ch

Pwyntiau Gweithredu o Wrandawriad Materion Penodol 1 (ISH1) ynghlŷn â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) ddydd Mercher 10 Hydref 2018.

Dyma restr o'r pwyntiau gweithredu yn dilyn ISH1. Dylai'r wybodaeth a nodir isod gael ei chynnwys mewn ymatebion erbyn Terfyn Amser 1.

Camau i'w cymryd gan yr Ymgeisydd
1. Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig i'w ddarparu sy'n diweddarau'r adrannau canlynol: <ul style="list-style-type: none">- Erthygl 17 (2): Yr Ymgeisydd i gadarnhau p'un a ellir cynyddu'r cyfnod rhybudd 14 diwrnod i 28 niwrnod;- Erthygl 40: Adran ardystio dogfennau;- Gofynion Atodlen 2;- Oriau Gwaith: Diweddarau Erthygl 2 i ddiffinio oriau gwaith yn eglur;- Gofyniad 27: Dywedodd yr Ymgeisydd y bydd hyn yn cael ei ddiweddarau yn y DCO diwygiedig.- Atodlen 12 i'w hadolygu yng ngoleuni sylwadau Dinas a Sir Abertawe
2. Dylai'r Ymgeisydd ystyried p'un a oes angen diweddarau'r CEMP Amlinellol yng ngoleuni'r Arweiniad Rheoli Llygredd a gyhoeddwyd yn ddiweddar; cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod yr arweiniad hwn ar gael ar wefan Gov.UK.
3. Safon ryngwladol yn ymwneud ag allbwn trydanol cysylltiedig: dylai'r Ymgeisydd ystyried cynnwys hyn yn yr Archwiliad.
4. Yr Ymgeisydd i ddarparu dadansoddiad sensitifrwydd o'r asesiadau sŵn ac ansawdd aer a gynhaliwyd, i ategu ei safbwynt nad oes angen Gofyniad yn y DCO i gyfyngu ar oes weithredu'r orsaf generadu.
5. Yr Ymgeisydd i lunio Datganiad Tir Cyffredin gyda Phartion yr Effeithir Arnynt a/neu eu cynrychiolwyr.
Camau i'w cymryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru
6. Cyfoeth Naturiol Cymru i esbonio sut maen nhw'n bwriadu cyfrifo'r oriau cyfartalog treigl at ddibenion y cais am Drwydded Amgylcheddol.

Nid cyngor cyfreithiol yw'r cyfathrebiad hwn.
Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.



National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer
Services: 0303 444 5000
e-mail: Abergelli.Power@pins.gsi.gov.uk

To Interested Parties, Statutory Parties
and Other Persons invited to the
Preliminary Meeting

Your Ref:

Our Ref: EN010069

Date: 17 October 2018

Dear Sir/ Madam

**The Planning Act 2008 – Section 89 and The Infrastructure Planning
(Examination Procedure) Rules 2010 – Rule 8 etc**

**Application by Abergelli Power Limited for an Order Granting Development
Consent for the Abergelli Power Project**

Examination Timetable and Procedure

This letter provides you with the Examination Timetable, details of the publication of the Examining Authority's (ExA) First Written Questions (FWQ's) and other important information about the Examination.

All documentation associated with this project, including a note of the Preliminary Meeting and the audio recording taken at that meeting, can be found using these links:

